


# MINECRAFT

- Mae Minecraft wedi tyfu i fod yn un o gemau mwyaf poblogaidd y byd.
- Markus Personn wnaeth greu Minecraft a chafodd y gêm ei datblygu gan Mojang Studios o Sweden. Ymddangosodd y gêm yn swyddogol yn 2011.
- Gêm “sandbox” yw Minecraft , sef gêm rhithiol (virtual) lle mae chwaraewyr yn creu profiadau a bydoedd ei hunain.
- Mae llwyth o adnoddau ar gael i’w casglu. e.e. planhigion, arfau, wyau , gwenyn ac yn y blaen. Gallwch adeiladu, fforio, cwffio neu gyd-weithredu ag eraill yn ystod y gêm.
- Gallwch chwarae Minecraft ar eich ffôn, cluniadur, tablet , X-Box neu Playstation.
- Mae rhai wedi disgrifio Minecraft fel “gêm heb reolau”. Gall y chwaraewr arbrofi ar lefel ei hun, heb orfod dilyn cyfarwyddiadau. Efallai mai dyma pam ei fod mor boblogaidd ymysg plant a phobl ifanc.





# MINECRAFT



1. Disgrifiwch Minecraft mewn **un** frawddeg. \_\_\_\_\_

---

---

2. Pwy wnaeth greu y gêm? \_\_\_\_\_

3. Ym mha flwyddyn ymddangosodd y gêm yn swyddogol? \_\_\_\_\_

4. Cofnodwch 3 peth y gall chwaraewyr wneud mewn gêm “sandbox” :

---

---

5. Cofnodwch 5 peth y gall chwaraewyr gasglu yn Minecraft:

---

---

6. Ar pa ddyfeisiadau fedrwch chi chwarae Minecraft?

---

---

7. Yn y testun , mae un awgrym ynglŷn â pham mae pobl ifanc yn hoffi Minecraft. Beth yw'r awgrym? -

---

---

# MINECRAFT 2

Minecraft yw'r gêm fideo mwyaf llwyddiannus erioed. O fewn **un mis** o lawnsio'r gêm yn 2011, gwerthwyd mwy nag un miliwn o gopiâu! Erbyn heddiw mae 126 miliwn o bobl yn ei chwarae'n rheolaidd.

Ers cychwyn Minecraft yn 2011, mae nifer o fersiynau neu "spin-offs" o'r gêm wedi ymddangos gan gynnwys Minecraft Classic, Minecraft Earth a Minecraft Dungeons.

Gellir chwarae Minecraft mewn amryw o foddau (modes) :

*survival, hardcore, creative, adventure neu spectator*

Mae tri dimensiwn yn y gêm sef y Prif-Fyd, y "Nether" a'r Diwedd.



Daniel Rosenfeld o'r Almaen neu "C418" yw prif-gyfansoddwr cerddoriaeth Minecraft

Mae Minecraft wedi derbyn llawer iawn o wobrwyon "gêm gorau" dros y blynyddoedd.

Mae'r gêm hyd yn oed wedi ysbrydoli nifer o bob i ysgrifennu nofelau amdano er enghraifft :

*Max Brooks (2017). Minecraft: The Island: An Official Minecraft Novel. Del Rey.*


*Tracey Baptiste (2018). Minecraft: The Crash: An Official Minecraft Novel. Del Rey.*

*Mur Lafferty (2019). Minecraft: The Lost Journals: An Official Minecraft Novel. Del Rey.*

*Catherynne Valente (2019). Minecraft: The End: An Official Minecraft Novel. Del Rey.*

# MINECRAFT

## Gwerthiant nwyddau Minecraft 2013—2018



*Timur9008 - I've made this using Microsoft Libre and Paint 3D*

1. Tua sawl miliwn o nwyddau a werthwyd yn 2014?
2. Tua sawl miliwn o nwyddau a werthwyd yn 2016?
3. Ym mha flwyddyn gwerthwyd fwyaf o nwyddau?
4. Ym mha flwyddyn gwerthwyd lleiaf o nwyddau?
5. “Mae gwerthiant nwyddau minecraft wedi tyfu’n rheolaidd dros y cyfnod uchod.”  
Gwir neu gau?
6. Tua sawl miliwn o nwyddau a werthwyd yn 2013 a 2014 ?
7. HER! Tua sawl miliwn o nwyddau a werthwyd rhwng 2013 a 2018?
8. Ysgrifennwch frawddeg am y graff.



## A pixelated character with black hair, a white beard, and a black robe with a white cross, holding a green sword.

[illegible]

Enwch a disgrifiwch




# Tynna Llan

[https://www.drawingnow.com/  
tutorials/119518/how-to-draw-  
minecraft-characters/](https://www.drawingnow.com/tutorials/119518/how-to-draw-minecraft-characters/)



/

## Design a Character



# Her sillafu—Dewisiwch eich lefel!



1	2	3
llaw	llestri	allanfa
llon	llwyfan	llythrennau
call	llawen	enillydd
cell	lleisiau	efallai
pell	lleidr	briallu
llys	llanast	llygoden
ar goll	twyllo	llyffantod
llais	castell	Llanllechid

Amsera dy hun yn ysgrifennu'r geiriau ar dy restr. Fedri di wneud hyn yn gynt yr ail dro? Beth yw dy record?

Dewisia geiriau o dy restr a chael gêm o hangman.

Chwilia yn y geiriadur am ystyr y geiriau .


Dewis gair a'i meimio i ffrind—fedr o / hi ddyfalu'r gair?

Rhestr 2 & 3:  
Llafariad = 1 pwynt, llythyren dwbl = 1 pwynt  
Pa air sy'n sgorio fwya'?

Gweithia efo ffrind : dewisiwch un rhestr. Scramblwch 3 gair yr un. Pwy fydd y cyntaf i ddatrys y geiriau?

Ysgrifenna brawddegau yn cynnwys y geiriau .

# Her sillafu—Dewisiwch eich lefel!



1	2	3
coch	chwarae	ymfalchïo
boch	chwythu	brawychus
bach	chwilio	edrychais
sach	chwerthin	chwistrellu
fflach	chwarel	breichledau
fflich	bachgen	Machynlleth
brech	uchder	crechwenu
cloch	llachar	ochneidio

Amsera dy hun yn ysgrifennu'r geiriau ar dy restr. Fedri di wneud hyn yn gynt yr ail dro? Beth yw dy record?

Dewisia geiriau o dy restr a chael gêm o hangman.

Chwilia yn y geiriadur am ystyr y geiriau .

Dewis gair a'i meimio i ffrind—fedr o / hi ddyfalu'r gair?

Rhestr 2 & 3:  
Llafariad = 1 pwynt, llythyren dwbl = 1 pwynt  
Pa air sy'n sgorio fwy?

Gweithia efo ffrind : dewisiwch un rhestr. Scramblwch 3 gair yr un. Pwy fydd y cyntaf i ddatrys y geiriau?

Ysgrifenna brawddegau yn cynnwys y geiriau .